# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 12.05.09

**Presennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd);
Y Cynghorwyr Louise Hughes a Ieuan Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb); Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), Heilyn Williams (Swyddog Trwyddedu), a Barbara Owen (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Yn cynrychioli'r Heddlu:** y Rhingyll Wynne Lane

**Ymgeiswyr**: Gwyndaf Hughes, Ysgrifennydd Clwb Rygbi Y Bala; Tony Parry (Cadeirydd y Clwb); Edwina Jones Evans (goruchwylwraig y Clwb)

**Gwrthwynebwyr:** Eifion Roberts, Is-gadeirydd Cyngor Tref Y Bala; Islwyn Pritchard Jones, Maer Y Bala; Mr Joe Jordan; Mr Derek Evans.

**Aelod Lleol:** Y Cynghorydd Dylan Edwards
.

**1. CAIS AM DRWYDDED EIDDO I GLWB RYGBI, Y BALA**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu ar gais ar ran Clwb Rygbi Y Bala am drwydded i ganiatau cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio, dawnsio, a chyflenwi alcohol rhwng 11.00 a 1.00, a lluniaeth hwyr, gyda'r eiddo ar agor hyd at 2.00am.

Adroddwyd i dderbyn llythyr gan yr Aelod lleol, Y Cyng. Dylan Edwards, ynghyd â deiseb wedi ei arwyddo gan drigolion lleol, yn datgan gwrthwynebiad i'r cais.

Derbyniwyd llythyr gan yr Heddlu yn gwrthwynebu'r cais ac yn cyflwyno sylwadau, llythyrau ar ran y Cyngor Tref ac oddiwrth nifer o drigolion lleol yn gwrthwynebu'r cais, a llythyrau gan y Gwasanaeth Tân, y Parc Cenedlaethol ac Adain Iechyd yr Amgylchedd yn cyflwyno sylwadau.

Tynnodd y Rheolwr Trwyddedu sylw'r cyfarfod i fodolaeth y Grwp Ymgynghorol Diogelwch Digwyddiadau, sef grwp a sefydlwyd yng Ngwynedd o gynrychiolwyr asiantaethau priodol i gynghori ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau sylweddol yn yr ardal ynghylch diogelwch y cyhoedd.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

1. Cafodd aelodau'r is-bwyllgor gyfle i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

2. Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

3. Rhoddwyd gwahoddiad i bob Ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig

4. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion.

5. Cafodd aelodau’r is-bwyllgor gyfle i ofyn cwestiynau i’r ymgeisydd.

6. Gwahoddwyd cynrychiolydd y Cyngor i ofyn cwestiynau i’r ymgeisydd

7. Cafodd cynrychiolydd y Cyngor a’r ymgeisydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Wrth gefnogi’r cais, mynegodd Ysgrifennydd y Clwb Rygbi mai bwriad pennaf cyflwyno’r cais oedd i allu cynnal gweithgareddau codi arian i’r Clwb yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol mis Awst eleni. Byddai hyn yn cael ei drefnu trwy gydweithrediad â Chymdeithas yr Iaith a’r Clwb Criced lleol, megis ambell i ddigwyddiad yn y gorffennol a drefnwyd i godi arian at achosion da. Ychwanegodd na fu cwynion yn dilyn y digwyddiadau hyn ac y byddai cyfyngiad o 500 o bobl i’r maes rygbi ac y byddai hyn yn nifer hwylus i’w reoli.

Mewn ymateb i gwestiynau adroddodd:

- Y byddai swyddogion y Clwb yn fodlon ar drwydded am wythnos yr Eisteddfod yn unig
- Nid oes bwriad i gynnal gweithgareddau o gwbl ar Ddydd Sul, 2il o Awst
- Y byddai’n dderbyniol defnyddio gwydrau a photeli plastig yn unig tu allan
- Y byddai’r trefnwyr yn fodlon cydymffurfio ag unrhyw awgrymiadau a gynigir gan y Grwp Ymgynghorol Diogelwch
- Y byddai’r trefnwyr yn fodlon cytuno ag awgrymiadau’r heddlu o ran oriau cynnal gweithgareddau
- Y byddai’r maes wedi ei amgylchynu â ffens ddiogelwch dros y cyfnod i hwyluso stiwardio
- Byddai unrhyw weithgareddau yn cael eu trefnu, fel yn y gorffennol, trwy gydweithrediad â Chymdeithas yr Iaith a’r Clwb Criced lleol
- Mae’r Clwb yn awyddus i gadw ewyllys da y gymuned leol wedi’r Eisteddfod, ac felly’n barod i dderbyn awgrymiadau’r asiantaethau ymgynghorol

Yn ei ddatganiad, mynegodd swyddog yr Heddlu:

- Bod gwrthwynebiad yr heddlu ar sail Atal Trosedd ac Anrhefn ac Atal Niwsans Cyhoeddus
- Mai lleoliad Maes Gwyniad yw’r achos pennaf o bryder, gan ei fod wedi ei amgylchynnu â thai annedd
- Ei fod yn ategu sylwadau Cyd-lynydd Trwyddedu yr Heddlu yn ei lythyr y byddai’r heddlu’n fodlon trafod gyda’r ymgeiswyr ynglyn â gweithgareddau ar Maes Gwyniad yn ystod wythnos yr Eisteddfod yn unig
- Bod y Clwb Rygbi â hanes di-fai o drefnu gweithgareddau i godi arian yn y gorffennol
- Wedi trafod y mater gyda Arolygydd Ardal Dolgellau, bod awgrym i ddiweddu gweithgareddau am hanner nos a chlirio erbyn 12.30, ond wedi ystyried ymhellach, ac o gofio bod tafarnau’r dref yn cau am 1.00 y bore, credir y buasai’n fwy doeth glynu i’r un amser cau â’r lleoliadau eraill o fewn y dref

Cafodd y gwrthwynebwyr gyfle i leisio barn. Adroddodd yr Aelod Lleol iddo ymateb yn ei lythyr ar sail bod y cais am drwydded lawn, ond pe ystyrir cais am wythnos yr Eisteddfod yn unig, yn bersonol ni fyddai ganddo wrthwynebiad i’r cais hwnnw, yn ddarostyngedig i amodau derbyniol ac ymgynghoriad â’r heddlu.

Wrth gefnogi’r sylwadau fynegwyd trwy lythyr, nododd y gwrthwynebwyr y pryderon canlynol:-

- Y byddai’r digwyddiadau yn ychwanegu at y tagfeydd trafnidiaeth yn y dref
- Y byddai’r gweithgareddau’n amharu ar heddwch y trigolion cyfagos, yn enwedig yn hwyr y nos wrth i’r cwsmeriaid ymadael
- Posibilrwydd o ddifrod i dai a gerddi cyfagos, a phennu cyfrifoldeb am hynny

- Daeth gwybodaeth i law bod Cymdeithas yr Iaith yn hysbysebu y bydd mynychwyr yn gallu gwersylla ar y maes dros yr Ŵyl. Wrth ymateb i hyn datganwyd mai'r Clwb Rygbi sydd berchen y tir ac mae'r gallu gan y Clwb i wrthod caniatad i bobl wersylla.

Adroddodd y Maer ar ran y Cyngor Tref iddo gredu bod gwrthwynebiad yr aelodau yn dal i sefyll pe byddai'r cais yn cael ei ystyried ar gyfer wythnos yr Eisteddfod yn unig.

Gadawodd yr ymgeisydd, y Rheolwr Trwyddedu ac aelodau o'r cyhoedd y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus ac
- Amddiffyn Plant Rhag Niwed

Cytunodd yr Aelodau bod y cais yn un anodd oherwydd bod cydymdeimlad â'r ddwy ochr o'r ddadl – mae pawb yn gefnogol i'r Clwb Rygbi ac yn awyddus i'w caniatau i elwa ar achlysur fel yr Eisteddfod, tra'n ymwybodol iawn o bryder y trigolion cyfagos. Er y byddai'r aelodau'n amharod i ganiatau trwydded lawn i'r Clwb, byddai caniatau trwydded am wythnos yr Eisteddfod yn fwy derbyniol, yn ddarostyngedig i amodau tynn i warchod hawliau'r cyhoedd, yn enwedig y trigolion cyfagos. Byddai'r amodau yn cynnwys:

- ymgynghori â'r Heddlu a'r Gwasanaeth Tân,
- ymgynghori ag adain Iechyd yr Amgylchedd ynghylch paratoi bwyd
- cydymffurfio â chyngor Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Digwyddiadau Gwynedd
- gosod ffens diogelwch o gwmpas y maes
- dim caniatau gwersylla.
- cysylltu â'r trigolion cyfagos ymlaen llaw trwy ymweliad neu lythyr gyda'r trefniadau, fel arwydd o ewyllys da.

**PENDERFYNWYD caniatau Trwydded i'r Clwb Rygbi, Bala am y cyfnod Dydd Sadwrn, 1 Awst, 2009 ac o Ddydd Llun, 3 Awst,2009, hyd at Ddydd Sadwrn 8 Awst, 2009 fel a ganlyn:**

1. **Caniatau cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio o 6.00pm hyd at 11.00pm**
2. **Darparu cyfleusterau ar gyfer dawnsio o 6.00pm hyd at 11.00pm**
3. **Caniatau cyflenwi alcohol o 11.00am hyd at 12.30am**
4. **Caniatau cyflenwi bwyd poeth o 11.00am hyd at 12.30am**
5. **Dim caniatau pebyll na charafanau ar Maes Gwyniad**
6. **Gosod y babell mor bell â phosibl oddiwrth y tai cyfagos**
7. **Clirio'r safle erbyn 1.00am**
8. **Cyfarfod â Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Digwyddiadau Gwynedd i drafod trefniadau a chydymffurfio ag unrhyw amodau awgrymir gan y Grŵp**
9. **Swyddogion i ymweld â'r tai cyfagos i rannu gwybodaeth am y trefniadau sydd mewn llaw ar gyfer yr wythnos**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb yr anfonir llythyr i bawb o fewn pum diwrnod gwaith yn cadarnhau dyfarniad yr Is-bwyllgor, gan hysbysu pawb o'r hawl a'r drefn i apelio yn erbyn dyfarniad yr Is-bwyllgor.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 4.00pm